**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-533
Ein cyf/Our ref CS/00428/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

7 Ebrill 2014

Annwyl William

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 17 Mawrth sy'n cyfeirio at y ffaith bod y Pwyllgor Deisebau wedi ystyried deiseb oddi wrth GALAR yn gofyn inni basio deddfwriaeth i osod amryfal amodau ar geisiadau cynllunio am dyrbinau gwynt.

Mae Llywodraeth Cymru am greu economi gynaliadwy, carbon isel i Gymru. Ein nod yw sicrhau cyfuniad priodol o ddarpariaeth o ran ynni i Gymru, a fydd yn dod â'r manteision mwyaf posibl i'n heconomi a'n cymunedau, ac a fydd hefyd, ar yr un pryd, yn lleihau effeithiau amgylcheddol a chymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl.

Rwy'n bendant o'r farn y byddai'r ddeddfwriaeth a gynigir yn y ddeiseb yn arwain at lawer gormod o gyfyngiadau drwy osod amodau ar bob cynnig i godi tyrbinau gwynt. Ni fyddai, ychwaith, yn ddigon hyblyg i ddarparu ar gyfer yr amgylchiadau unigol a'r nodweddion penodol o ran safle sydd i'w gweld mewn ceisiadau cynllunio.

Er enghraifft, rwyf o'r farn y byddai'n anodd diffinio'r hyn a olygir wrth dyrbin gwynt masnachol; gall tyrbinau dros 47m fod yn addas o dan rai amgylchiadau; a byddai mynd ati i gael caniatâd ysgrifenedig trigolion lleol yn waith anodd ei weinyddu a'i fonitro, ac yn cael effaith niweidiol iawn ar y broses ddatblygu.

Y system gynllunio sydd ohoni ar hyn o bryd yw'r ffordd fwyaf priodol o reoli cynigion am dyrbinau gwynt. Mae pob cais cynllunio am dyrbinau gwynt yn cael ei ystyried yn unigol gan awdurdodau cynllunio lleol ac mae'n ofynnol iddyn nhw ymgynghori â thrigolion lleol am y polisïau a fydd yn cael eu defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau. Mae'n ofynnol hefyd iddynt ymgynghori â'r trigolion hynny am y ceisiadau cynllunio eu hunain.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Gall awdurdodau cynllunio lleol ddefnyddio amodau cynllunio i liniaru unrhyw effeithiau y gallai cynnig eu cael, os oes ganddo bolisïau priodol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, y gellir eu defnyddio i gyfiawnhau camau o'r fath.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration